OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2658 (Cy. 263)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Gwahardd Troadau Pedol) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Medi 2014* |
| *Yn dod i rym* | *30 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y ffordd fynediad"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Medi 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Gwahardd Troadau Pedol) 2014.

### Gwaharddiad

**2.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd wneud troad pedol tra bo'n mynd ar hyd naill ai gerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad wrth bob un o'r cyffyrdd â signalau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.
Dyddiedig 25 Medi 2014.

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**
Penaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

# YR ATODLEN

## GWAHARDD TROADAU PEDOL

Y gyffordd â signalau 383 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glan Llyn.

Y gyffordd â signalau 490 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Monks Ditch.

Y gyffordd â signalau 709 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Monks Ditch.